| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | PWYLLGOR PENSIYNAU |
| DYDDIAD | 22 MAWRTH 2011 |
| TEITL | DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH FUDDSODDIAD FLYNYDDOL AR GYFER 2011/12 |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | GOFYN I'R PWYLLGOR PENSIYNAU FABWYSIADU'R STRATEGAETHAU |
| AWDUR | DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID |

## 1. STRATEGAETH FUDDSODDI Y GRONFA BENSIWN

Yn unol â Chyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol, mae'n ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth wrth reoli'r trysorlys, i baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Fel ymarfer da, ystyrir y dylai Cronfa Bensiwn Gwynedd (y "Gronfa") fabwysiadu Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) Cyngor Gwynedd am 2011/12, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn (sy'n amgaeedig fel Atodiad A). Cafodd DSRhT Cyngor Gwynedd am 2011/12 ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 3 Mawrth 2011.

## 2. CANLLAWIAU CIPFA

Bydd y Gronfa yn rhoi ystyriaeth i adolygiad 2009 o "CIPFA Treasury Management in Public Services Code of Practice and Cross Sectoral Guidance Notes".

## 3. LLIF ARIAN Y GRONFA BENSIWN

Mae mewnlif net o arian i'r Gronfa gan ei haelodau, felly mewn unrhyw fis, mae'r incwm o gyfraniadau a throsglwyddiadau mewnol yn sylweddol uwch na'r hyn a delir allan mewn pensiynau, trosglwyddiadau allanol â chostau. Pan fydd lefel yr arian dros ben yn sylweddol, bydd arian yn cael ei drosglwyddo i un neu fwy o reolwyr buddsoddi y Gronfa. Fel rheol bydd tua £5 miliwn yn cael ei gadw ar gyfer dibenion llif arian, megis talu pensiynau ac i ariannu'r galw am arian gan y cronfeydd ecwiti preifat. Yn y gorffennol fodd bynnag, oherwydd ymrwymiadau gwybyddus, ar rai adegau mae'r arian sy'n cael ei ddal yng nghyfrifon banc y Gronfa gyda Chyngor Gwynedd wedi bod dros £20 miliwn.

## 4. CRONNI ER MWYN UCHAFU DYCHWELIADAU

Ar hyn o bryd mae holl arian dros ben y Gronfa yn cael ei gronni gyda balansau ariannol Cyngor Gwynedd ac yn cael ei fuddsoddi gyda gwrthbartion yn unol â Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys Cyngor Gwynedd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn ar sail balansau dyddiol y Gronfa dros y flwyddyn. Gall hyn gario ymlaen os bydd y Pwyllgor Pensiynau yn dymuno i arian dros ben y gronfa bensiwn gael ei gronni efo balansau ariannol y Cyngor. Mae'n amlwg fod cronni yn caniatáu manteision maint, ac o ganlyniad yn denu llog uwch, isafu costau banc, ac yn osgoi dyblygu gwaith o fewn y Cyngor.

## 5. GWRTHBARTION (Banciau)

Diweddarwyd y rhestr o wrthbartïon **(Atodiad C)** er mwyn adlewyrchu'r argymhellion diweddaraf. Tynnwyd y banciau Sbaeneg a ychwanegir 6 banc at y rhestr. Newidiwyd 2 banc eu henwau sydd wedi cael eu diwygio ar y rhestr. Nodir y newidiadau hyn mewn print trwm yn **Atodiad C**, gyda'r terfyn cynt mewn cromfachau. Mae'r ychwanegiadau yma wedi cael eu cymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar 3 Mawrth 2011, a bydd y rhestr newydd yn weithredol o 1 Ebrill 2011 ymlaen.

## 6. SGÔP

Ni fydd y strategaeth arfaethedig yn delio gyda'r arian sy'n cael ei ddal gan reolwyr buddsoddi y Gronfa ar gyfer setliadau.

## 7. ARGYMHELLION

7.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Pensiynau gymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi Blynyddol atodol am 2011/12, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn (Atodiad A), a'r rhestr o wrthbartion a ddangosir yn Atodiad C.

7.2 Gofynnir hefyd i'r Pwyllgor Pensiynau wneud cais i'r Cyngor (er nad yw'n gorff ar wahân) i ganiatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda llif-arian cyffredinol y Cyngor o 1 Ebrill 2011 ymlaen.

**ATODIAD A**

# DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS A'R STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL 2011/12 i 2013/14

## 1. Cyflwyniad

Mae CIPFA wedi diffinio Rheolaeth Trysorlys fel a ganlyn:

*"the management of the organisation's investments and cash flows, its banking, money market and capital market transactions; the effective control of the risks associated with those activities; and the pursuit of optimum performance consistent with those risks."*

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ei benderfyniadau a gweithgarwch trysorlys. Nid oes unrhyw weithgarwch rheolaeth trysorlys nad ydyw'n cyflwyno risg. Mae adnabod risgiau'n llwyddiannus, eu monitro a'u rheoli yn elfen bwysig ac integrol o'i weithgareddau rheolaeth trysorlys. Mae'r Cyngor yn ceisio i ennill y gyfradd llog gorau posib sydd yn cyd-fynd gyda risg derbyniol. Y prif risgiau i weithgareddau rheolaeth trysorlys sy'n effeithio'r Gronfa Bensiwn yw:

- Risg o Hylifedd (adnoddau arian annigonol)
- Risgiau Cyfraddau'r Farchnad neu Gyfraddau Llog (lefelau cyfraddau llog yn amrywio)
- Risg o Chwyddiant (Bod yn agored i chwyddiant)
- Risg Credyd a Gwrthbarti (Diogelwch Buddsoddiadau)
- Risg Gyfreithiol a Rheoleiddiol;

Pwrpas y Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys yw cymeradwyo:

- Strategaeth Rheolaeth Trysorlys ar gyfer 2011-12;
- Defnydd o Fuddsoddiadau Penodedig ac Amhenodedig.

## 2. Sefyllfa'r Fantolen a'r Trysorlys – Ddim yn berthnasol i'r Gronfa Bensiwn

## 3. Rhagolygon ar gyfer Cyfraddau Llog

Mae'r rhagolygon cyfraddau llog fel ar Ionawr 2011, yn cael eu darparu gan ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor, Arlingclose Ltd, ac fe'u dengys isod:

| | Maw 2011 | Meh 2011 | Medi 2011 | Rhag 2011 | Maw 2012 | Meh 2012 | Med 2012 | Rhag 2012 | Maw 2013 | Meh 2013 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfradd Sylfaenol** | | | | | | | | | | |
| Risg gall godi | +0.25 | +0.25 | +0.25 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 |
| **Barn Ganolog** | **0.50** | **0.50** | **0.75** | **1.00** | **1.25** | **1.50** | **2.00** | **2.50** | **2.75** | **2.75** |
| Risg gall ostwng | | | -0.25 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 |
| **LIBID Blwyddyn** | | | | | | | | | | |
| Risg gall godi | +0.25 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 |
| **Barn Ganolog** | **1.65** | **1.90** | **2.15** | **2.40** | **2.50** | **2.50** | **2.75** | **3.00** | **3.25** | **3.50** |
| Risg gall ostwng | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 |
| **Gilt 5 Mlynedd** | | | | | | | | | | |
| Risg gall godi | +0.25 | +0.25 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 |
| **Barn Ganolog** | **2.75** | **3.00** | **3.25** | **3.50** | **3.75** | **4.00** | **4.00** | **4.00** | **4.00** | **4.00** |
| Risg gall ostwng | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 |
| **Gilt 10 Mlynedd** | | | | | | | | | | |
| Risg gall godi | +0.25 | +0.25 | +0.25 | +0.25 | +0.25 | +0.25 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 |
| **Barn Ganolog** | **3.90** | **3.75** | **3.75** | **4.00** | **4.25** | **4.75** | **4.75** | **4.75** | **4.75** | **4.75** |
| Risg gall ostwng | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 |
| **Gilt 20 Mlynedd** | | | | | | | | | | |
| Risg gall godi | +0.25 | +0.25 | +0.25 | +0.25 | +0.25 | +0.25 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 |
| **Barn Ganolog** | **4.50** | **4.75** | **5.00** | **5.00** | **5.00** | **5.00** | **5.00** | **5.00** | **5.00** | **5.00** |
| Risg gall ostwng | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 |
| **Gilt 50 Mlynedd** | | | | | | | | | | |
| Risg gall godi | +0.25 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 |
| **Barn Ganolog** | **4.25** | **4.50** | **4.75** | **4.75** | **4.75** | **4.75** | **4.75** | **4.75** | **4.50** | **4.50** |
| Risg gall ostwng | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 |

Rhagolygon Arlingclose mis Ionawr 2011ar gyfer cyfraddau llog yw y bydd y gyfradd sylfaenol:-

- yn parhau ar 0.50% hyd nes Ch3 2011 pan fydd yn codi i 0.75%, i 1.00% yn Ch4 2011, ac i 1.25% yn Ch1 2012.
- disgwylir bydd yn parhau i godi'n raddol hyd nes iddo gyrraedd 2.75% yn Ch1 2013.

Mae llwybr y gyfradd sylfaenol yn adlewyrchu natur fregus yr economi fel caiff ei hadfer, ac yn adlewyrchu tynhau arian y gyllideb frys ar raddfa sylweddol fwy. Gan fod twf a chwyddiant sylfaenol yn debygol o barhau i fod yn isel, bydd y Banc yn glynu wrth ei safiad 'is am hwy' ar gyfraddau polisi. Bydd ansicrwydd ynghylch dyled sofren yr Ewrozone a'r risg haint yn parhau i ddylanwadu ar y farchnad gredyd byd-eang.

Mae eu rhagolygon economaidd ym mis Ionawr 2011 fel a ganlyn:

- Mae'r fframwaith a'r targedau a gyhoeddwyd yn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (ACW) i leihau'r diffyg yn y gyllideb a dyledion y Llywodraeth fel ac yr oeddent ym mis Mehefin ac yn canolbwyntio ar sut y bydd y toriadau yn cael eu dosrannu. Y garreg filltir gyllidol nesaf fydd asesiad Swyddfa Cyfrifoldeb y Gyllideb goblygiadau'r ACW ar dwf, cyflogaeth a chwyddiant.

- Roedd cofnodion y Pwyllgor Polisi Ariannol (PPA) a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr yn awgrymu symud oddi wrth y rhaglen i ryddhau arian i'r economi (Quantitative Easing). Er bod y cyflenwad arian yn wan a bod y rhagolygon twf yn isel mae'r PPA wedi gwyro at gynyddu'r graddau yn y flwyddyn newydd wrth i chwyddiant byd-eang barhau i gynyddu yn ogystal â chwyddiant aelwydydd.
- Mae Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr yn parhau uwchben 3% ac mae'n debygol o fynd yn uwch na 4% ym mis Ionawr wrth i gostau TAW, Chyfleustodau a Thocynnau Trên gynyddu.
- Mae diweithdra'n parhau i fod yn uwch ers dros un mlynedd a'r bymtheg, gyda 2.5miliwn o bobl yn ddi-waith, a disgwylir i'r ffigwr codi gyda'r toriadau Sector Cyhoeddus.
- Mae rheolau cyfalaf/ hylifedd Basel III a'r amserlenni a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn gadarnhaol i fanciau. Mae gwaith o ail-strwythuro mantolenni banciau'r DU yn parhau a disgwylir y bydd cryn amser i'w gwblhau. Bydd hyn yn rhag-amod ar gyfer normaleiddio amodau credyd a benthyciadau gan fanciau.
- Mae taliadau morgais, gostyngiad mewn credyd cwsmeriaid net a diffyg hyder cwsmeriaid yn cyd-fynd â llai o ddefnydd ac felly hefyd patrymau graddau twf yn y dyfodol, er gwaethaf y perfformiad eithaf cryf yn chwarter 3.

## 4. <u>Gofyn Benthyca a'r Strategaeth Fenthyca</u> – Ddim yn berthnasol i'r Gronfa Bensiwn

## 5. <u>Aildrefnu Dyledion</u> – Ddim yn berthnasol i'r Gronfa Bensiwn

## 6. <u>Polisi a Strategaeth Fuddsoddi</u>

Mae Canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol yn ei gwneud yn ofynnol creu Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol (SFF).

**Polisi Buddsoddi**

Er mwyn cydymffurfio â'r Canllawiau hyn, amcan polisi cyffredinol y Cyngor yw bod yn ddarbodus wrth fuddsoddi balansau'r trysorlys. Mae gwarantu cyfalaf a hylifedd buddsoddiadau yn hytrach na'u cynnyrch yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Bydd y Cyngor yn anelu i wneud yr elw mwyaf posib ar ei fuddsoddiadau yn gyfesur â lefelau priodol o ddiogelwch a hylifedd. Mae benthyca arian yn unswydd er mwyn ei fuddsoddi, neu "*on-lend*" a gwneud elw yn anghyfreithlon ac ni fydd y Cyngor hwn yn ymrwymo i weithgaredd o'r fath.

Mae'r offerynnau buddsoddi sydd wedi eu dynodi ar gyfer eu defnyddio yn y flwyddyn ariannol wedi'u rhestru isod o dan y categorïau Buddsoddiadau 'Penodedig' ac 'Amhenodedig'.

**<u>Buddsoddiadau Penodedig:</u>**

Defnyddir sterling ar gyfer pob buddsoddiad o'r fath, **gydag aeddfediad o hyd at flwyddyn ar y mwyaf,** gan gyrraedd yr isafswm meini prawf credyd 'uchel' ble bo hynny'n berthnasol.

| | **Isafswm Meini Prawf Credyd 'Uchel'** | **Defnydd** | **Uchafswm Cyfnod** |
|---|---|---|---|
| Cyfleuster Adneuon yr Asiantaeth Rheoli Dyledion (DMADF) | Diogel iawn er nad ydi'r DMADF yn cael eu hasesu ar gyfer statws credyd. | Mewnol | Blwyddyn |
| Adneuon Cyfnod Penodol gydag Awdurdodau Lleol | Diogel iawn er nad ydi Awdurdodau Lleol yn cael eu hasesu ar gyfer statws credyd. | Mewnol | Blwyddyn |
| Adneuon Cyfnod Penodol a Thystysgrifau Adneuon gyda banciau a chymdeithasau adeiladu gan gynnwys adneuon galwadwy gydag aeddfediad llai na blwyddyn | Isafswm tymor byr F1 neu gyfwerth. Isafswm tymor hir A+ neu gyfwerth. Yn ogystal, bydd y Cyngor yn ystyried gwybodaeth ar ddatblygiadau corfforaethol ynghylch gwrthbartïon buddsoddi ynghyd ag agwedd y farchnad tuag atynt. | Mewnol | Blwyddyn |
| Giltiau (DMO) * | Diogel iawn - dyroddi gan y Llywodraeth. | Mewnol* | Blwyddyn |
| Biliau Trysorlys * | Diogel iawn - dyroddi gan y Llywodraeth. | Mewnol | Blwyddyn |
| Biliau Awdurdodau Lleol * | Diogel iawn er nad ydi Awdurdodau Lleol yn cael eu hasesu ar gyfer statws credyd. | Mewnol | Blwyddyn |
| Bondiau a dyroddi gan fanciau datblygu amlochrog * | EIB, Council of Europe, Inter American Investment Bank | Mewnol* | Blwyddyn |

* Mae'r rheiny yn ychwanegiadau i'r rhestr a buddsoddir yn yr offerynnau yma yn dilyn arweiniad gan gynghorwr rheolaeth trysorlys y Cyngor. Maent yn debyg ond y defnyddir fel hafan ddiogel ar unrhyw amser straen bancio yn y dyfodol.

**Buddsoddiadau Amhenodedig**:

Ar ôl ystyried y rhesymeg a'r risg sy'n gysylltiedig â Buddsoddiadau Amhenodedig, mae'r hyn a ganlyn wedi'i bennu er defnydd y Cyngor:

| | **Isafswm Meini Prawf Credyd** | **Defnydd** | **Uchafswm Cyfnod Aeddfedu** | **Uchafswm % y Portffolio** |
|---|---|---|---|---|
| Adneuon Cyfnod Penodol gyda banciau a chymdeithasau adeiladu gan gynnwys Tystysgrifau Adneuon | Isafswm tymor byr F1 neu gyfwerth. Isafswm tymor hir AA- neu gyfwerth. Yn ogystal, bydd y Cyngor yn ystyried gwybodaeth ar ddatblygiadau corfforaethol ynghylch gwrthbartïon buddsoddi ynghyd ag agwedd y farchnad tuag atynt. | Mewnol a Rheolwyr Cronfeydd | 2 flynedd | 50% o holl bortffolio'r Cyngor |
| Giltiau (DMO)* | Diogel iawn - dyroddi gan y Llywodraeth. | Mewnol* | 6 blynedd | Dim cyfyngiad |
| Bondiau a dyroddi gan sefydliadau ariannol a warantir gan lywodraeth y DU* | Diogel iawn – warantir gan y Llywodraeth. | Mewnol* | 6 blynedd | 50% o holl bortffolio'r Cyngor |
| Bondiau mewn sterling gan lywodraethau sofran tu allan i'r DU* | Isafswm cyfradd credyd AA+ | Mewnol* | 3 blynedd | 50% o holl bortffolio'r Cyngor |
| Bondiau a dyroddi gan fanciau datblygu amlochrog * | EIB, Council of Europe, Inter American Investment Bank | Mewnol* | 6 blynedd | 50% o holl bortffolio'r Cyngor |
| Cronfeydd Marchnad Arian | AAAm | Mewnol a Rheolwyr Cronfeydd | Hylifedd Dyddiol | 50% o holl bortffolio'r Cyngor |

* Mae'r rheiny yn ychwanegiadau i'r rhestr a buddsoddir yn yr offerynnau yma yn dilyn arweiniad gan gynghorwr trysorlys y Cyngor. Maent yn debyg ond y defnyddir fel hafan ddiogel ar unrhyw amser straen bancio yn y dyfodol.

Mae'r wasgfa ariannol wedi rhoi'r ffocws yn ôl ar y flaenoriaeth rheolaeth trysorlys sef diogelwch yr arian cyfalaf sy'n cael ei fuddsoddi. Mae'r Cyngor yn defnyddio statws credyd er mwyn llunio ei restr o wrthbartïon (Atodiad C). Bydd y Cyngor a'i Ymgynghorwyr Trysorlys, Arlingclose, yn parhau i gynnal rhestr o wrthbartïon a bydd yn asesu a diweddaru statws credyd y sefydliadau'n rheolaidd. Bydd yr asesiad yn ystyried ffactorau megis:

- statws credyd unigol (isafswm tymor hir A+ i wrthbartion; AA+ i wledydd);
- *"credit default swaps"*;
- dyled net unrhyw wlad fel canran o'i Gynnyrch Mewnwladol Crynswth;
- hawl i gynlluniau gwarant y Llywodraeth;
- cefnogaeth bosib gan sefydliad rhiant gydag adnoddau digonol;
- phris cyfranddaliad y sefydliad;
- dangosyddion macro-economeg; a
- datblygiadau corfforaethol, newyddion ac erthyglau, teimlad y farchnad.

Os yw statws credyd gwrthbarti'n cael ei israddio ac nad ydyw, o ganlyniad i hynny, yn cyrraedd gofynion lleiafswm y Cyngor, bydd unrhyw ddefnydd arfaethedig o'r gwrthbarti hwnnw fel buddsoddiad newydd yn cael ei wrthod yn syth. Os bydd corff yn cael ei osod ar statws negyddol (h.y. bod tebygolrwydd rhesymol bod y statws am newid a bod y newid hwnnw am fod yn negyddol) a'i fod ger gwaelod y statws credyd derbyniol ar gyfer buddsoddi ar y pryd, yna ni wneir unrhyw fuddsoddiadau pellach gyda'r corff hwnnw.

**Strategaeth Fuddsoddi**
Mae cyllid y Cyngor sy'n cael ei reoli'n fewnol yn cael ei ariannu o lif arian y Cyngor yn bennaf. Gan roi ystyriaeth i lefel balansau arian parod y Cyngor dros y tair blynedd nesaf, yr angen am hylifedd, ei ymrwymiadau gwario, a darpariaeth ar gyfer cynlluniau wrth gefn, mae'r Cyngor wedi penderfynu y dylid cadw £40miliwn o'i falansau arian mewn buddsoddiadau amhenodedig yn ystod y flwyddyn.

Mae cyfradd sylfaenol y DU wedi parhau ar 0.5% ers mis Mawrth 2009. Mae cyfraddau arian marchnad tymor byr yn debygol o barhau ar lefelau isel iawn a bydd hyn yn cael effaith arwyddocaol ar yr incwm buddsoddi. Fodd bynnag, rhaid i strategaeth y Cyngor fod wedi'i hanelu tuag at y datblygiad hwn gan gydymffurfio, ar yr un pryd, gyda'r prif amcan sef diogelwch yr arian sydd wedi'i fuddsoddi.

Er mwyn cael amrywiad yn y rhestr o wrthbartïon (Atodiad C) ystyriwyd bod yn briodol defnyddio banciau cymharol y tu allan i'r DU ar gyfer buddsoddi yn 2010/11. Newidiwyd y rhestr ar gyfer 2011/12 i gynnwys Sweden fel gwlad sofran awdurdodedig. Tynnwyd Sbaen oddi ar y rhestr ac ychwanegwyd 6 banc i'r rhestr. Mae'r gwledydd hyn, a'u Banciau, wedi'u dewis yn dilyn asesu'r ffactorau a nodwyd uchod yn ofalus. Bydd y Cyngor, a'i Ymgynghorwyr Trysorlys, Arlingclose, yn parhau i ddadansoddi a monitro'r ffactorau hyn ynghyd â datblygiadau credyd yn rheolaidd ac yn ymateb yn ôl yr angen er mwyn sicrhau diogelwch y cyfansymiau cyfalaf a fuddsoddwyd.

**7. <u>Y Gofyn am Gyllideb Gytbwys</u> - Ddim yn berthnasol i'r Gronfa Bensiwn**

**8. <u>Datganiad DLlR 2010/11</u> - Ddim yn berthnasol i'r Gronfa Bensiwn**

**9. <u>Adrodd ar Alldro'r Trysorlys</u>**

Bydd y Pennaeth Cyllid yn adrodd i'r Pwyllgor Pensiynau ynghylch y gweithgarwch rheolaeth trysorlys a'r perfformiad fel a ganlyn:

(a) Adolygiad hanner blwyddyn a diwedd blwyddyn yn erbyn y strategaeth a gymeradwywyd ar gyfer y flwyddyn.
(b) Bydd y Cyngor yn cynhyrchu adroddiad alldro ar ei weithgarwch trysorlys ddim hwyrach na 30 Medi yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**10. <u>Eitemau eraill</u> - Ddim yn berthnasol i'r Gronfa Bensiwn**

**<u>ATODIAD B</u>**

**DANGOSYDDION DARBODUS 2010/11–2012/13 – Ddim yn berthnasol i'r Gronfa Bensiwn**

**ATODIAD C**

## RHESTR O WRTHBARTÏON CYMERADWY CYNGOR GWYNEDD

**Adneuon Cyfnod Penodol / Cyfrifon ar alw**

| Gwlad | Gwrthbarti | Uchafswm Buddsoddiad a Argymhellir £m | Cyfyngiad ar Gyfnod y Benthyciad |
|---|---|---|---|
| Y DU | DMADF, DMO | Dim cyfyngiad | Dim cyfyngiad |
| Y DU | UK Local Authorities | £10m (£10m) | Blwyddyn |
| Y DU | **Santander UK Plc** (Banco Santander Group) | £20m (£20m) | 2 flynedd* |
| Y DU | Bank of Scotland (Lloyds Banking Group) | £20m (£20m) | 2 flynedd |
| **Y DU** | **Lloyds TSB (Lloyds Banking Group)** | **£20m (£0m)** | **2 flynedd** |
| Y DU | Barclays Bank Plc | £20m (£20m) | 2 flynedd |
| Y DU | Clydesdale Bank (National Australia Group) | £20m (£20m) | 2 flynedd |
| Y DU | HSBC Bank Plc | £20m (£20m) | 2 flynedd |
| Y DU | Nationwide Building Society | £20m (£20m) | 2 flynedd |
| **Y DU** | **Nat West (RBS Group)** | **£20m (£0m)** | **2 flynedd** |
| Y DU | Royal Bank of Scotland (RBS Group) | £20m (£15m) | 2 flynedd |
| **Y DU** | **Standard Chartered Bank** | **£20m (£0m)** | **2 flynedd** |
| Awstralia | Australia and NZ Banking Group | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| Awstralia | Commonwealth Bank of Australia | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| Awstralia | National Australia Bank Ltd | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| Awstralia | Westpac Banking Corp | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| Canada | Bank of Montreal | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| Canada | Bank of Nova Scotia | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| Canada | Canadian Imperial Bank of Commerce | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| Canada | Royal Bank of Canada | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| Canada | Toronto-Dominion Bank | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| Y Ffindir | Nordea Bank Finland | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| Ffrainc | BNP Paribas | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| Ffrainc | **Credit Agrigcole CIB** (Credit Agricole Group) | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| Ffrainc | Credit Agricole SA (Credit Agricole Group) | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| **Ffrainc** | **Société Générale** | **£5m (£0m)** | **Blwyddyn** |
| Yr Almaen | Deutsche Bank AG | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| **Yr Iseldiroedd** | **ING Bank NV** | **£5m (£0m)** | **Blwyddyn** |
| Yr Iseldiroedd | Rabobank | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| **Sweden** | **Svenska Handelsbanken** | **£5m (£0m)** | **Blwyddyn** |
| Y Swistir | Credit Suisse | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| UDA | JP Morgan | £5m (£5m) | Blwyddyn |

* Mae Arlingclose wedi gosod cyfyngiad o 6 mis i'r banc hon ar hyn o bryd.

1. Mae cyfyngiad o £20m ar fanciau o fewn yr un grŵp.
2. Bydd buddsoddiadau mewn banciau y tu allan i'r DU yn cael eu cyfyngu i derfyn uchaf o 40% o'r portffolio, gyda chyfyngiad o £10m mewn unrhyw wlad **at uchafswm o 30% o'r portffolio fesul gwlad.**
3. **Isafswm Meini Prawf Credyd -** isafswm tymor hir A+ i wrthbartïon; AA+ i wledydd.

| **Offeryn** | **Gwlad** | **Gwrthbarti** | **Uchafswm Buddsoddiad a Argymhellir £m** | **Cyfyngiad ar Gyfnod y Benthyciad** |
|---|---|---|---|---|
| Giltiau | Y DU | DMO | Dim cyfyngiad | 6 blynedd |
| Cronfeydd Marchnad Arian statws AAA | Y DU / Iwerddon / Lwcsembwrg | Cronfeydd Marchnad Arian | £5m fesul enw | Hylifedd Dyddiol |
| Cronfeydd Marchnad Arian eraill a Chynlluniau Buddsoddi ar y Cyd | Y DU | Cynlluniau Buddsoddi ar y Cyd | £5m fesul enw | Hylifedd Dyddiol |
| **Biliau Trysorlys*** | **Y DU** | **DMO** | **Dim cyfyngiad** | **Blwyddyn** |
| **Biliau Awdurdodau Lleol*** | **Y DU** | **Awdurdodau Lleol y DU** | **£10m** | **Blwyddyn** |
| **Bondiau a dyroddi gan fanciau datblygu amlochrog *** | **Ewrop / America** | **EIB, Council of Europe, Inter American Investment Bank** | **£5m** | **6 blynedd** |
| **Bondiau a dyroddi gan sefydliadau ariannol a warantir gan lywodraeth y DU*** | **Y DU** | **Sefydliadau a warantir.** | **£5m** | **6 blynedd** |
| **Bondiau mewn sterling gan lywodraethau sofran tu allan i'r DU*** | **Tu allan i'r DU** | **Llywodraethau sofran tu allan i'r DU** | **£5m** | **3 blynedd** |

* Buddsoddir yn yr offerynnau yma yn dilyn arweiniad gan gynghorwr rheolaeth trysorlys y Cyngor.